IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# NOSC 2026 Rhif 139

# TRAFFIG FFYRDD

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Scleddau, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Gorffennaf 2026* |
| *Yn dod i rym* | *29 Gorffennaf 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig(**1**) ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A40, a thrwy arfer y pwerau yn adrannau 84(1)(a) a (2), a 124(1)(d) a (3)(b) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**), a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**3**).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Scleddau, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2026 a daw i rym ar 29 Gorffennaf 2026.

(**1**) *Gweler* adran 121A(1)(a) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1984 (p. 27) am ystyr "traffic authority".
(**2**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(**3**) O.S. 1990/1656.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

# NWSI 2026 No. 139

# ROAD TRAFFIC

## The A40 Trunk Road (Scleddau, Pembrokeshire) (40 mph Speed Limit) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *28 July 2026* |
| *Coming into force* | *29 July 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority(**1**) for the relevant length of the A40 trunk road, and in exercise of the powers in sections 84(1)(a) and (2), and 124(1)(d) and (3)(b) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**2**), make this Order.

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(**3**).

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the A40 Trunk Road (Scleddau, Pembrokeshire) (40 mph Speed Limit) Order 2026 and it comes into force on 29 July 2026.

(**1**) *See* section 121A(1)(a) of the Road Traffic Act 1984 (c. 27) for the meaning of "traffic authority".
(**2**) 1984 c. 27; sections 82(2) and 83(1) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 59(3) and 60(2). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
(**3**) S.I. 1990/1656.

## Cyfyngiad

**2.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur(**1**) yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o gefnffordd yr A40 yn Scleddau, Sir Benfro sy’n ymestyn o bwynt 369 o fetrau i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr U3418 i Abergwaun, hyd at bwynt 275 o fetrau i’r de-ddwyrain o ganol yr un gyffordd.

## Dirymu

**3.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Scleddau, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2004(**2**) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Gorffennaf 2026

*Nicci Hunter*
Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

(**1**) *Gweler* adran 136(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (p.27) am ystyr “motor vehicle”.
(**2**) O.S. 2004 Rhif 2597 (Cy. 231).

## Restriction

**2.** No person may drive any motor vehicle(**1**) at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the A40 trunk road in Scleddau, Pembrokeshire, that extends from a point 369 metres north-west of the centre of its junction with the U3418 road to Fishguard, to a point 275 metres south-east of the centre of the same junction.

## Revocation

**3.** The A40 Trunk Road (Scleddau, Pembrokeshire) (50 mph Speed Limit) Order 2004(**2**) is revoked.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated 28 July 2026

*Nicci Hunter*
Head of Governance and Assurance
Welsh Government

(**1**) *See* section 136(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984 (c. 27) for the meaning of “motor vehicle”.
(**2**) S.I. 2004 No. 2597 (W. 231).